

Crynodeb o Benderfyniadau a Chamau Gweithredu

Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweithredol
Dydd Iau 16 Ionawr 2020 - 10am
Ystafell y Bwrdd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Caerdydd
Cadeirydd: Richard Tompkins

Eitem	Penderfyniad/Cam gweithredu	
1.Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg	Camau gweithredu	Aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol i ystyried pa gamau a allai fod angen eu cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach ynghylch datblygiadau sydd yn yr arfaeth o ran Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg a diweddarau'r rhanddeiliaid hynny. Roedd hyn yn cynnwys symud y cyfrifoldeb dros y CPG a'r Gyd-ysgrifenyddiaeth i'r Gyfarwyddiaeth newydd.
2. Cyfarfod arbennig y CPG ar 25 Mawrth 2020 – Paratodau a'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt	Penderfyniadau	Cytunodd aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol ar yr agenda drafft ar gyfer Cyfarfod Arbennig y CPG ar 25 Mawrth 2020.
3.Cytundeb Drafft y CPG ar Ddefnyddio Trefniadau Oriau Heb eu Gwarantu mewn ffordd Dderbyniol	Penderfyniadau	Cytunodd y Cyd-bwyllgor Gweithredol i gyhoeddi'r ddogfen arferion gorau i gyd-fynd â chyhoeddi'r Cytundeb Trefniadau Oriau heb eu Gwarantu.
		Bydd llythyr teirochrog oddi wrth y Cyd-bwyllgor yn cael ei gyhoeddi gyda'r Cytundeb Trefniadau Oriau heb eu Gwarantu.
	Camau gweithredu	Y Gyd-ysgrifenyddiaeth i gydweithio â phartneriaid i lunio llythyr eglurhaol teirochrog ynghylch defnyddio'r Trefniadau Oriau heb eu Gwarantu mewn ffordd dderbyniol i'w gyhoeddi gyda Chytundeb y CPG erbyn diwedd Ionawr 2020.

	Camau gweithredu	Y Gyd-ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi'r ddogfen arferion gorau i fynd gyda Chytundeb y CPG ar ddefnyddio'r Trefniadau Oriau heb eu Gwarantu mewn ffordd dderbyniol.
4. Dogfen Arferion Gorau Drafft y CPG ar Ddefnyddio Trefniadau Oriau Heb eu Gwarantu mewn ffordd Dderbyniol		Dim penderfyniadau na champau gweithredu
5. Cynnig - Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru	Penderfyniadau	Cytunodd y Cyd-bwyllgor Gweithredol i ddatblygu'r cynigion ynghylch porth Un Gwasanaeth Cyhoeddus a'r rhaglen STEP ymhellach.
	Camau gweithredu	Aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol i ymgysylltu â'u rhwydweithiau i chwilio am fudiadau priodol i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar beilot y Rhaglen Profiad Tymor Byr.
		Aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol i roi gwybod i'r Gyd-ysgrifenyddiaeth am fforymau cyfarfod priodol y gallai ei haelodau fynd iddynt er mwyn ymgysylltu â phartneriaid wrth ddatblygu'r cynnig am borth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.
6.Ystadau Cymru – Rheoli Asbestos mewn Adeiladau Cyhoeddus	Penderfyniadau	Cytunodd y Cyd-bwyllgor Gweithredol y dylai Mike Payne gynrychioli Cyd-bwyllgor Gweithredol CPG ar is-grŵp asbestos Ystadau Cymru.
	Camau gweithredu	Y Gyd-ysgrifenyddiaeth i ddiwygio datganiad ar y cyd y CPG ar Reoli Asbestos mewn Adeiladau Cyhoeddus i gynnwys nodyn yn dweud y byddai Ystadau Cymru yn parhau â'r drafodaeth drwy is-grŵp penodedig cyn ei gyhoeddi.

<p>7. Cynnig - Dogfen Arferion Gorau'r CPG ar gefnogaeth menpos yn y gweithle</p>	<p>Penderfyniadau</p>	<p>Roedd y Cyd-bwyllgor Gweithredol wedi cytuno â chynnig yr undebau llafur i gydweithio â TUC Cymru i adolygu gweithrediad y polisiau perthnasol i'r menpos oedd gan sefydliadau ac i dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol yr oedd y rhain yn ei chael ar y gweithlu.</p>
	<p>Camau gweithredu</p>	<p>Y Gyd-ysgrifenyddiaeth i gydweithio â TUC Cymru i lunio cynnyrch sy'n tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae arferion cefnogol a pholisiau'n ymwneud â'r menpos yn gallu ei chael ar y gweithle.</p>
<p>8. Diweddariad – Cymorth yn y gweithle i'r rheini sy'n dioddef cam-drin domestig</p>	<p>Penderfyniad</p>	<p>Roedd y Cyd-bwyllgor Gweithredol yn cefnogi'r cynnig i hyrwyddo ac annog defnyddio adnoddau oedd ar gael ar hyn o bryd a luniwyd i fynd i'r afael â thrais, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn menywod.</p>
	<p>Camau gweithredu</p>	<p>Y Gyd-ysgrifenyddiaeth i lunio nodyn briffio ar gyfer Aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol y gallent ei rannu â rhanddeiliaid ynghylch yr adnoddau oedd ar gael, gyda chymorth Tim VAWDASV.</p>
<p>9. Adolygiad o Gofnodion CPG/Materion yn Codi</p>	<p>Penderfyniad</p>	<p>Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweithredol ar 22 Tachwedd 2019 yn gofnod gwir a chywir.</p>
<p>10. Unrhyw Fater Arall</p>		<p>Dim penderfyniadau na chymau gweithredu</p>